Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
Independent Remuneration Panel for Wales

Carys Edwards MA FCIPD
Pennaeth y Proffesiwn AD
Cyngor Sir Ynys Môn
CarysEdwards@ynysmon.gov.uk

30 Hydref 2018

Annwyl Carys

Ystyriwyd eich llythyr dyddiedig 11 Hydref, ynghyd â'r dogfennau ategol gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ei gyfarfod ar 24 Mawrth. Roedd holl aelodau'r Panel yn bresennol ac felly roedd y cyfarfod yn gwneud cworwm.

Mewn perthynas â swyddogaeth y Panel yn ymwneud â cyflogau prif swyddogion, mae'r cylch gwaith a'r canllawiau gan Lywodraeth Cymru yn caniatáu i'r Panel wneud y canlynol:

a) Cymeradwyo'r cynnig
b) Mynegi pryderon am y cynnig
c) Argymell amrywiad i'r cynnig


Ar ôl edrych ar gyflwyniad eich awdurdod, penderfyniad y Panel yw argymell amrywiad i'r cynnig i gynyddu lefel cyflog swydd wag y Pennaeth Priffyrdd o £61,554 – £67,923 i uchafswm cyflog o £75,410.

Nododd y Panel bod y cyflog arfaethedig yn uwch na'r rhai cyfatebol uchaf a nodir yn eich adroddiad. Mae'r Panel yn cydnabod yr egwyddor o ddefnyddio cyfradd y farchnad ar gyfer y swydd fel gwaelodlin, fel a wnaed mewn swyddi eraill anodd eu llenwi yn Ynys Môn, ond roedd y cyflogau cyfatebol yn yr achos hwnnw yn uwch, ac nid oedd yr atchwanegiad yn codi'r cyflog yn uwch na'r

taliad uchaf, ond yn hytrach tua hanner ffordd.

Mae'r Panel yn argymell na ddylai lefel cyflog y swydd fod yn uwch na £71,606. Mae'r ffigur hwn ar frig yr ystod cyflog cyfatebol a nodir yn eich adroddiad, ac yn gyson â’r achos blaenorol.

Yn gywir



John Bader
Cadeirydd y Panel